Ofcom

# Bwletin Darlledu ac Ar-alw

13 Mawrth 2025



## Nodyn i Ddarlledwyr

### Y newyddion diweddaraf am wleidyddion fel darllenwyr newyddion, cyfwelwyr newyddion neu ohebwyr newyddion

### Tynnu penderfyniadau yn ôl a dod ag ymchwiliadau i ben yn dilyn Dyfarniad yr Uchel Lys: GB News v Ofcom

Fel y nodwyd yn ein Nodyn i Ddarlledwyr blaenorol a gyhoeddwyd ar 3 Mawrth 2025[1], heriodd GB News benderfyniadau Ofcom ynghylch dwy bennod o *Jacob Rees-Mogg's State of the Nation*[2] drwy adolygiad barnwrol. Ar 28 Chwefror 2025, cyflwynodd yr Uchel Lys ei Ddyfarniad[3], ac am y rhesymau a nodir ynddo, diddymwyd y ddau benderfyniad yma gan y Llys ac fe'u hanfonwyd yn ôl i gael eu hailystyried gan Ofcom.

Mae Ofcom wedi ystyried Dyfarniad y Llys yn ofalus ac a ddylid ailymchwilio i'r ddwy raglen a oedd dan sylw yn y penderfyniadau a gafodd eu diddymu. Mae Ofcom hefyd wedi ystyried ei safbwynt mewn perthynas â'r holl benderfyniadau Rheol 5.1/5.3 eraill ynghylch rhaglenni GB News a gyhoeddwyd ar 18 Mawrth 2024 (tri Phenderfyniad ynghylch tor-amod yn ymwneud ag *Esther a Phil*, ac un Penderfyniad na fwriwyd ymlaen ag ef ynghylch pennod arall o *Jacob Rees-Mogg*).

Mae Ofcom wedi penderfynu ar y canlynol:

- Ni fydd Ofcom yn ailymchwilio i'r ddwy raglen *Jacob Rees-Mogg*;
- Mae Ofcom wedi tynnu'r holl Benderfyniadau uchod a gyhoeddwyd ar 18 Mawrth 2024 oddi ar gofnod cydymffurfio GB News; ac
- Mae Ofcom wedi tynnu'r holl benderfyniadau uchod o'i Fwletin Broadcast and On Demand, gan ychwanegu nodyn at y dudalen we berthnasol yn egluro bod y penderfyniadau hyn wedi cael eu tynnu'n ôl yn dilyn Dyfarniad y Llys. Mae modd cael gafael ar benderfyniadau 18 Mawrth 2024 er gwybodaeth o hyd[4].

---

[1] Nodyn i Ddarlledwyr – Gwleidyddion fel darllenwyr newyddion, cyfwelwyr newyddion a gohebwyr newyddion
[2] Darllediad *State of the Nation* Jacob Rees-Mogg ar 9 Mai 2023 ac 13 Mehefin 2023
[3] https://www.bailii.org/ew/cases/EWHC/Admin/2025/460.html
[4] Politicians acting as newsreaders, news interviewers or news reporters and Jacob Rees-Mogg State of the Nation 2 May 2023

Yng ngoleuni'r Dyfarniad, mae Ofcom hefyd wedi rhoi gwybod i'r darlledwyr perthnasol ei fod wedi penderfynu rhoi'r gorau i'r chwe ymchwiliad agored ynghylch gwleidyddion yn gweithredu fel cyflwynwyr a oedd yn destun ymchwiliad o dan Reolau 5.1 a 5.3. Dyma'r ymchwiliadau:

- *Jake Berry,* Talk TV, 12 Rhagfyr 2023;
- *Jake Berry,* Local TV, 12 Rhagfyr 2023;
- *Farage,* GB News, 17 Ionawr 2024;
- *David Lammy,* LBC 97.3FM, 29 Mawrth 2024;
- *Alex Phillips,* Talk, 22 Mai 2024; a,
- *Morning Glory,* Talk, 19 Gorffennaf 2024.

## Adolygiad ac ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i'r Cod Darlledu

Bydd Ofcom nawr yn adolygu Rheol 5.3 ac yn ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i atal gwleidyddion rhag cyflwyno newyddion mewn unrhyw fath o raglen. Ein nod yw mynd ati mor gyflym â phosibl i gyhoeddi'r ymgynghoriad hwn, felly dylai darlledwyr ei ddisgwyl yn nes ymlaen yn y gwanwyn. Yn y cyfamser, dylai darlledwyr ystyried y Canllawiau Interim[5] a amlinellwyd gennym yn y nodyn blaenorol. Mae canllawiau Adran Pump wedi cael eu diwygio i adlewyrchu'r Canllawiau Interim hyn.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau am y mater hwn, anfonwch e-bost at ofcomstandardsteam@ofcom.org.uk

[5] Nodyn i Ddarlledwyr – Gwleidyddion fel darllenwyr newyddion, cyfwelwyr newyddion a gohebwyr newyddion